

## Canllaw Stori Fer Wyddonias

Heddiw, eich tasg yw ysgrifennu Stori Fer Wyddonias neu Ffug-wyddonol. Nid oes angen i chi ysgrifennu mwy na 600 gair, ond ceisiwch ddilyn y pwyntiau bwled isod ar gyfer cynllunio eich stori cyn mynd ati i'w hysgrifennu.

### Cynnwys:

- Peidiwch â dewis gormod o gymeriadau, dylai un neu ddau fod yn ddigon.
- Wrth greu eich cymeriad/au, cofiwch holi eich hun; beth sy'n gwneud y cymeriad yma'n ddiddorol?
- Ceisiwch feddwl am elfen ffug-wyddonol sy'n ddatblygiad o rhywbeth gwyddonol sy'n bodoli go iawn.
- Penderfynwch: Pryd? Ble?
- Yn debyg i nofel Llyr Titus, Gwalia, rhowch ddechrau dramatig i ni.
- Cofiwch ddatblygu'r stori yn y canol trwy ddigwyddiad, cymeriad newydd, sylweddoliad, neu broblem.
- Ceisiwch anelu at gael diweddglo cofiadwy.
- Os ydych am ddefnyddio deialog cofiwch ei chadw'n fywiog.

### Iaith:

- Ysgifennwch y stori yn yr amser gorffennol, e.e. "Neidiodd trwy'r ffenestr a theimlodd y gwydr yn rhwygo ei groen."
- Ceisiwch amrywio hyd eich brawddegau a chofiwch baragraffu.
- Ceisiwch gynnwys idiom.
- Ceisiwch osgoi ailadrodd rhai geiriau yn ormodol, e.e. "Meddai" "Roedd" "Yna".